| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Gweithiwr Cymdeithasol |
| **Portffolio** | Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion |
| **Yn atebol i'r** | Uwch Ymarferydd / Rheolwr Tîm |
| **Lleoliad** | Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, Yr Wyddgrug |
| **Cyfeirnod/Rhif Adnabod y Swydd** | |

**Pwrpas y Swydd**

Cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl i hyrwyddo eu hiechyd meddwl a'u lles.
Mae disgwyl i ddeiliad y swydd ymgymryd ag achosion yn annibynnol a dangos y gallu i addasu'r ymdriniaeth o'r egwyddorion cyntaf i ymdrin ag achosion cymhleth neu anarferol, gan asesu a rheoli risg yn briodol. Mae'r swydd o fewn gwasanaeth a reolir ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd.
Bydd angen i ddeiliad y swydd ddangos gallu i ymdrin ag achosion cymhleth. Bydd hyn yn cynnwys gweithio dan bwysau gan reoli perthnasoedd cymhleth, lefelau uchel o risg i ddefnyddwyr y gwasanaeth, diogelu oedolion diamddiffyn a gwneud dyfarniadau ynglŷn â'r angen am gamau gweithredu gorfodol.

**Prif Gyfrifoldebau**

1. Bydd deiliad y swydd yn cynnal ystod o asesiadau gofal yn y gymuned a diogelu, yn unol â gofynion statudol perthnasol, gan nodi risgiau, anghenion ac opsiynau. Ar hyn o bryd, mae'r swydd o fewn y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd.
2. Datblygu a gweithredu cynlluniau gofal, sydd wedi'u cysylltu'n glir ag anghenion cleientiaid a dynodi unrhyw anghenion a chanlyniadau sydd heb eu bodloni.
3. Bydd deiliad y swydd yn creu pecynnau gofal gwerth am arian; comisiynu ystod o wasanaethau a luniwyd i leihau risg a gwella safon bywydau defnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr.
4. Bydd deiliad y swydd yn gweithio gydag unigolion a'u teuluoedd, gofalwyr a chymunedau i'w helpu i wneud dewisiadau a phenderfyniadau deallus, gan eu galluogi i egluro a mynegi eu hanghenion a chyfrannu at gynlluniau gwasanaeth.
5. Rheoli llwyth achosion cleientiaid dyranedig; monitro, adolygu a gwerthuso newidiadau yn anghenion y cleient yn rheolaidd a sicrhau bod pob gwasanaeth yn cyfrannu'n effeithiol at y cynllun gofal a sicrhau bod adnoddau'n dal i gael eu defnyddio'n effeithiol.
6. Bydd deiliad y swydd yn datblygu a chynnal perthnasoedd effeithiol â chleientiaid, eu teuluoedd a'u gofalwyr; rhoi cyngor a chymorth, hyrwyddo annibyniaeth ac ymyrraeth gynnar, yn ôl yr angen; helpu i ddatrys gwrthdaro lle bo hynny'n briodol.
7. Bydd deiliad y swydd yn cysylltu â chydweithwyr yn eu hadran eu hunain ac adrannau eraill ac asiantaethau allanol er mwyn casglu gwybodaeth berthnasol i'r asesiadau a gweithgareddau cynllunio gofal; bod yn eiriolwr ar ran cleientiaid a gofalwyr yn yr awdurdod lleol a gydag asiantaethau iechyd a mudiadau gwirfoddol.
8. Bydd deiliad y swydd yn diweddaru nodiadau achosion a chofnodion eraill, ysgrifennu adroddiadau yn ôl yr angen; rhoi tystiolaeth yn y llys mewn perthynas â gofal ac achosion eraill yn ôl y gofyn.
9. Efallai y bydd gofyn goruchwylio myfyrwyr gwaith cymdeithasol ar brofiad gwaith, hyfforddeion, staff cymorth neu wirfoddolwyr.
10. Parhau i ymgymryd â hyfforddiant ar ôl cymhwyso megis credydau Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus a fydd yn ateb gofynion Cyngor Gofal Cymru, gan gynnwys gwobrau ymarferwyr profiadol, megis Asesydd Ymarfer, Asesydd Lles Gorau, Asesydd Colli Rhyddid ac ati. Ar ôl cwblhau'r rhaglenni cymwys hyn bydd deiliad y swydd yn rhoi'r ymarfer ar waith.

| **Goruchwylio/Rheoli Pobl** |
|---|
| Bydd deiliad y swydd yn gweithio i'r Uwch Ymarferydd a/neu Reolwr y Tîm a bydd yn cael cynnig cefnogaeth, goruchwyliaeth a datblygiad staff rheolaidd. |
| **Gwiriadau Cyflogaeth/Gofynion Penodol h.y. y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** |
| |
| **Amodau Gweithio Arbennig** |
| **E.e. – Mae'r swydd hon yn cynnwys gweithio yn yr awyr agored mewn tywydd gwael am gyfran o'r amser gweithio NEU mae'r swydd hon yn cynnwys gyrru'n rheolaidd ac mae angen trwydded yrru lawn a mynediad at gerbyd.** |

| **Manylion am yr Unigolyn** | | |
|---|---|---|
| ***Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'u defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod yn dangos yn eich cais sut rydych yn bodloni pob un o'r gofynion hanfodol.*** | | |
| **Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol (CQSW, CSS, DipSW)<br>O leiaf dwy flynedd o brofiad ar ôl cymhwyso | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Gallu profedig i gynnal asesiadau o bobl â phroblemau iechyd meddwl a'u teuluoedd / gofalwyr ar y cyd â gweithwyr proffesiynol eraill yn ôl y gofyn | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu trefnu, monitro a gwerthuso cynlluniau gofal. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Defnyddio menter a gwneud penderfyniadau heb ymgynghori lle bo hynny'n briodol | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gweithio'n greadigol ac arloesol wrth ddylunio cynlluniau gofal | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Sgiliau** | | |
| Cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Ymrwymiad i ddull gweithio a arweinir gan anghenion er mwyn cynnal annibyniaeth gymaint ag sy'n bosibl a chynnig cyfle i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Personoliaeth – gallu gweithio gydag ystod eang o broffesiynau a darparwyr gofal. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Ymrwymiad i weithio fel rhan o dîm profiadol | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Gwerthfawrogi amrywiaeth a defnyddio terminoleg bositif wrth gyfeirio at ddefnyddwyr y gwasanaeth. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad blaenorol o weithio gyda phobl â phroblemau iechyd meddwl a'u teuluoedd/ gofalwyr. | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Adolygu a monitro trefniadau gofal. | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad blaenorol o weithio gyda thîm amlddisgyblaeth. | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dealltwriaeth ymarferol o ddeddfwriaethau sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Y Gymraeg | Dymunol | Ffurflen Gais |
| **Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint** | **Hanfodol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| **Cwsmer yn Gyntaf:** Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i fodloni eu disgwyliadau a rhagori arnynt. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Gweithio'n Ddoethach:** Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i chi ei gyflawni yn eich swydd a meddu ar y sgiliau, y cymhelliant, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad i weithio'n effeithiol. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Cydweithio/Gweithio mewn Partneriaeth:** Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol er mwyn darparu gwell gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid a'n gweithwyr. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Cyfathrebu:** Sicrhau ein bod yn deall ein gilydd, yn parchu ein gilydd ac yn mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Newid:** Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau, drwy greu syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu ein gwasanaethau. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Arwain a Rheoli:** Eich arwain a'ch cymell eich hunan ac eraill i wella perfformiad yn barhaus. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |